CYMDEITHAS TAI CLWYD

GWASANAETHU NWY

Mae dyletswydd cyfreithiol arnom ni fel landlord i wirio a gwasanaethu'r holl offer nwy rydym ni'n gyfrifol amdanynt.

Byddwn yn:

- Cynnal gwiriad diogelwch nwy bob blwyddyn, ac yn gwasanaethu'r offer nwy sy'n eiddo i ni yn unol â'r Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998 o fewn cyfnod o 12 mis.
- Sicrhau bod yr holl beirianwyr a ddefnyddir wedi eu cofrestru gyda 'Gas Safe'.
- Nodi yn eich cytundeb tenantiaeth fod cyfrifoldeb arnoch chi i ganiatáu mynediad i ni i wasanaethu unrhyw osodiadau neu offer nwy yn yr eiddo a ddarperir gan y Gymdeithas.
- Dilyn ein polisïau a gweithdrefnau* i gael mynediad i'ch eiddo os nad ydych yn caniatáu mynediad. Noder: gallai peidio â chaniatáu mynediad i gyflawni'r gwaith gwasanaethu yma arwain at gamau cyfreithiol.
- Anfon llythyr atoch chi chwe wythnos cyn cynnal y gwiriad gan awgrymu dyddiad ac amser i wneud y gwaith. Mae croeso i chi gysylltu gyda'r Cwmni Archwilio os nad yw'r dyddiad neu'r amser yn gyfleus.
- Sicrhau os yw offer yn methu prawf diogelwch, lle bo'n bosibl a gyda chytundeb y tenant, ymdrechu i gywiro'r sefyllfa a gwneud yr offer yn ddiogel i'w ddefnyddio yn y cyfamser, os nad yw hyn yn bosibl, a gyda chaniatâd y Gymdeithas, datgysylltu'r offer a gadael i'r tenant wybod pryd a sut y bydd yn cael ei drwsio.
- Cynnig gwresogyddion trydan darfudol dros dro os bydd y tenant heb wres tros gyfnod o amser.
- Darparu Tystysgrif Diogelwch Landlord i bob tenant newydd sy'n symud i mewn i eiddo Cymdeithas Tai Clwyd (sy'n cynnwys gwres canolog nwy).
- Sicrhau bod pob peiriannydd yn dangos bathodyn adnabod pan mae'n dod i'ch cartref chi.

* Mae copi o'r polisïau a'r gweithdrefniadau ar gael ar gais.

Mae'n rhaid i chi:

- Yn unol â'ch cytundeb tenantiaeth, ganiatáu mynediad i wasanaethu unrhyw osodiadau neu offer a ddarperir yn yr eiddo gan y Gymdeithas.
- Fod yn gyfrifol am wirio'r offer nwy yr ydych chi'n berchen arnynt, e.e. tân nwy a phopty.

Os ydych angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol e.e. ar dâp, mewn Braille, cysylltwch â ni.

54 Stryd y Dyffryn
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3BW

☎0345 230 3140
🖷 0345 230 3145
www.taiclwyd.com
taiclwyd@taiclwyd.com

Uned 8, Gweithdai Penllyn
Heol Aran
Y Bala, Gwynedd
LL23 7SP